# FFYNNON TAF A GWAELOD

Gohebydd Lleol: E.June Huws

## CHWAREL STEETLEY

Mae'r frwydr yn erbyn cynllun Steetley i ehangu yn dal i fynd ymlaen. Erbyn hyn mae'r Ysgrifennydd Gwladol, Peter Walker, wedi gwrthod ymchwiliad cyhoeddus ac mae felly i fyny i Gyngor Sir Morgannwg Ganol i benderfynu.

Nos Wener, 16ed Mehefin bu cyngerdd yng Nghapel Bethlehem i godi arian at yr ymgyrch. Cafwyd gwledd o gerddoriaeth gyda llawer o gantorion Cwmni Opera Cymru yn cymryd rhan ynghyd â'r Kenneth Stoat Singers, Tom Proctor ar y trwmped a David Thomas ar yr organ. Adloniant o safon uchel iawn ar ein stepan drws. Trueni na fuasai hyd yn oed mwy o bentrefwyr ac aelodau'r capel wedi ymgynnull.

## DRAMA GYMRAEG

Bu perfformiad o 'Adar Heb Adenydd' gan Gwmni Dalier Sylw yn neuadd y pentref ar nos Fercher 31ain Mai. Braf gweld drama Gymraeg yn y pentref er mai siomedig oedd nifer y gynulleidfa. Bu tipyn go lew o hwyl a chwerthin yn ystod y ddrama er fod rhywfaint o benbleth wrth ymdrechu i'w deall ar y diwedd! Cafwyd perfformiadau cofiadwy gan Michael Lynch, Sharon Morgan a Catherine Tregenna yn arbennig.

## C.N.D. G-Y-G

Cynhelir noson o adloniant yn Neuadd y Pentref ar nos Sadwrn 22ain o Orffennaf. Bydd Dave Burns yno ac mae si ar led y bydd Heather Jones yn canu hefyd. Cynhwysir bwyd ym mhris y tocynnau. Ffoniwch 810419 neu 811242 am ragor o fanylion.

## BABI NEWYDD

Llongyfarchiadau calonnog i Stuart a Lindsey Williams, Y Mans, Gwaelod y Garth ar enedigaeth eu mab bach ar 29ain o Fai - brawd bach newydd i Rhiannon. Mae'r bychan yn dal heb enw yn fis oed - brysiwch wir!

## SWPER HÂF CAPEL BETHLEHEM

Cynhaliwyd y swper haf blynyddol ar nos Sul 18fed o Fehefin. Paratowyd swper gan y chwiorydd. Cafwyd adloniant gan Arwel ac Eleri Peleg Williams.

## URDD FFYNNON TÂF

Ar nos Sul 11eg o Fehefin cafwyd Helfa Drysor i godi arian at Eisteddfod yr Urdd. Cymerwyd rhan gan ddau ar hugain o deuluoedd a deithiodd ugain milltir yr un. Gobeithio bod 'Shell' yn noddi!

## URDD G-y-G


Cynhaliwyd Ffair Sborion yn Festri Capel Bethlehem ar Nos Wener 23 ain o Fehefin i godi arian at yr Eisteddfod, ac at yr un pwrpas bydd Disgo i'r plant yn neuadd Ysgol Gwaelod y Garth ar nos Iau 20fed Orffennaf rhwng 3.00 a 6.00 pm. Tocynnau 50c yr un.

## DISGO

Nos Sadwrn 8fed o Orffennaf 8.30pm - 12.00 cynhelir disgo i oedolion yng Nghlwb Rygbi Ffynnon Tâf tuag at Gronfa Ysgol Gwaelod y Garth. Mae'r tocynnau sy'n £2 yn cynnwys bwyd. Ffoniwch 810149. Dewch yn llu i gefnogi'r ysgol!

## EUROCAST FFYNNON TAF

Nos Iau, 22ain o Fehefin cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn neuadd y pentref Ffynnon Taf. Mae llawer o'r pentrefwyr yn gofidio am gynlluniau Eurocast i ehangu ei ffowndri. Ofnant bydd trafnidiaeth sydd eisioes yn drwm yn gwaethygu. Ond y gofid mwyaf yw y bydd llygredd aliwminiwm cynyddol yn cael ei ollwng i'r amgylchedd.

CANOLFAN HANESYDDOL
A DIWYLLIANNOL PONTYPRIDD

AR AGOR
Dydd Mawrth - Dydd Sadwrn 9 am - 5 pm
(a Gwyliau Banc)

MYNEDIAD
Oedolion 25c - Plant 15c

CANOLFAN CROESO

Arddangosfeydd ar Daith

**Yr Arddangosfa Arlunio Blynyddol**

Heol y Bont, Pontypridd, Morgannwg Ganol
Ffon (0443) 402077/480786

CYNGOR TREF PONTYPRIDD


# PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Ann Dwynwen Davies

## TE MEFUS

Er na fu cystadlu yn y gystadleuaeth Ffereta, cafwyd prynhawn dymunol yn Neuadd y Pentref, Dydd Sul Mehefin 11eg, pan fu Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd yn paratoi Tê Mefus - platiad o sgons a mefus a hufen am bris rhesymol a phaned boeth neu sudd oren. Cwmni Cyntaf Geidiau Pentyrch fu'n casglu'r mefus, a thalwyd amdanyn nhw gan bwyllgor y Geidiau, a bu hynny'n help sylweddol i ychwanegu at elw'r prynhawn.

## FFAIR SBORION

Cynhaliodd yr Ysgol Feithrin Ffair Sborion hynod o lwyddiannus yn neuadd y Pentre, bore Sadwrn Mehefin 24ain. Roedd y byrddau'n gwegian dan bwysau dillad a theisennau a thipyn o hyn a'r llall, a chodwyd dros ganpunt at yr achos.

## PARTI I'R PLANT

Dymuna plant a rhieni'r Ysgol Feithrin ddiolch am y croeso a estynnwyd iddyn nhw yn y Tê Parti yn Ysgol Feithrin y Creigiau bore Iau Mehefin 22ain.

## YMGYRCH NEWYDD

Mae pwyllgor yr Ysgol Feithrin ar fin lansio ymgyrch newydd i hysbysu rhieni di-Gymraeg am fodolaeth yr ysgol a gwerth addysg Gymraeg. Bydd posteri'n cael eu gosod o gwmpas y pentre a gobeithiwn gael peth cyhoeddusrwydd yn y wasg Saesneg. Os gwyddoch chi am unrhyw un sy â diddordeb mewn addysg feithrin Gymraeg, neu sy'n awyddus i drafod â rhieni di-Gymraeg eraill sy eisioes wedi penderfynu dros addysg Gymraeg, ffoniwch 891520.

## PRIODAS

Llongyfarchiadau i Andrew, mab Myra a Howard Thomas, 5 Pantbach, ar ei briodas â Sally Davies yn Eglwys y Santes Fair, Yr Eglwys Newydd ar Fai'r 28ain. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Ystum Tâf.

## GENI

Llongyfarchiadau i Julie ac Ian Perryman, 19, Lôn y Fro, ar enedigaeth Rhodri, brawd bach i Rachel, ar Fai'r 26ain.